O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2021 Rhif (Cy.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Penmaen-bach, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2021

Gwnaed	*7 Medi 2021*
Yn dod i rym	*13 Medi 2021*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Penmaen-bach, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 13 Medi 2021.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn yw—

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw:

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

W E L S H S T A T U T O R Y
I N S T R U M E N T S

2021 No. (W.)

ROAD TRAFFIC, WALES

The A55 Trunk Road (Penmaenbach Tunnel, Conwy County Borough) (Temporary Traffic Prohibitions & Restrictions) Order 2021

Made	*7 September 2021*
Coming into force	*13 September 2021*

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A55 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A55 Trunk Road (Penmaenbach Tunnel, Conwy County Borough) (Temporary Traffic Prohibitions & Restrictions) Order 2021 and this Order comes into force on 13 September 2021.

Interpretation

2. In this Order—

"exempted vehicle" *("cerbyd esempt")* means:

(**1**) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26) section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**); a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r awyrlu ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 13 Medi 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr "lluoedd arbennig" *("special forces")* yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A55 Caer i Fangor.

(a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**); and

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

"special forces" *("lluoedd arbennig")* means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

"the trunk road" *("y gefnffordd")* means the A55 Chester to Bangor trunk road;

"works period" *("cyfnod y gwaith")* means intermittent periods commencing at 19:00 hours on 13 September 2021 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

Gwaharddiadau a chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar gerbytffordd tua'r dwyrain neu gerbytffordd tua'r gorllewin y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4.—(1) Tra bo cerbydau wedi eu gwahardd gan erthygl 3 rhag symud ar y gerbytffordd tua'r dwyrain, ond yn unol ag erthygl 12, heb eu gwahardd ar y gerbytffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur er mwyn peri neu ganiatáu iddo:

(a) mynd ar lôn allanol y gerbytffordd tua'r gorllewin i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain;

Prohibitions and restrictions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on either the eastbound or westbound carriageways of the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

4.—(1) Whilst vehicle movement is, by article 3, prohibited on the eastbound carriageway, but pursuant to article 12, not prohibited on the westbound carriageway, no person may drive so as to cause or permit any motor vehicle to:

(a) proceed in the offside lane of the westbound carriageway in any direction other than eastwards;

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(**1**) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

(b) mynd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain drwy unrhyw un o'r bylchau yn llain ganol y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

(2) Tra bo cerbydau wedi eu gwahardd gan erthygl 3 rhag symud ar y gerbytffordd tua'r gorllewin, ond yn unol ag erthygl 12 heb eu gwahardd ar y gerbytffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur er mwyn peri neu ganiatáu iddo:

(a) mynd ar lôn allanol y gerbytffordd tua'r dwyrain i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin;

(b) goddiweddyd unrhyw gerbyd modur ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn;

(c) mynd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin drwy unrhyw un o'r bylchau yn llain ganol y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn hwn.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 6 i'r Gorchymyn hwn.

8. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd modur sy'n 3.2 metr neu 3.7 metr o led neu'n lletach fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 7 i'r Gorchymyn hwn.

9. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn hwn.

10. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 8 i'r Gorchymyn hwn.

11. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 8 i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

12.—(1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10 ac 11 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y'u

(b) proceed in any direction other than eastwards through either of the gaps in the central reservation of the length of the trunk road specified in Schedule 3 to this Order.

(2) Whilst vehicle movement is, by article 3, prohibited on the westbound carriageway, but pursuant to article 12, not prohibited on the eastbound carriageway, no person may drive so as to cause or permit any motor vehicle to:

(a) proceed in the offside lane of the eastbound carriageway in any direction other than westwards;

(b) overtake any motor vehicle on the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order;

(c) proceed in any direction other than westwards through either of the gaps in the central reservation of the length of the trunk road specified in Schedule 3 to this Order.

5. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 50 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 4 to this Order.

6. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in Schedule 5 to this Order.

7. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 30 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in Schedule 6 to this Order.

8. No person may, during the works period, cause or permit any vehicle with a width of or exceeding 3.2 metres or 3.7 metres to proceed on the lengths of the trunk road specified in Schedule 7 to this Order.

9. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in Schedule 5 to this Order.

10. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the length of the trunk road specified in Schedule 8 to this Order.

11. No pedestrian may, during the works period, proceed on the length of the trunk road specified in Schedule 8 to this Order.

Application

12.—(1) The prohibitions and restrictions in articles 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10 and 11 apply only at such times and to such extent as indicated by traffic signs.

dangosir gan arwyddion traffig.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Atal dros dro

13. Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd (yr A55) (Penmaen-bach – Dwygyfylchi, Gwynedd) (Traffig Unffordd) 1990(**1**) wedi eu hatal dros dro i'r graddau y maent yn ymwneud â lôn allanol cerbytffordd tua'r gorllewin y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r gerbytffordd tua'r dwyrain ar gau yn unol ag erthygl 3 ac â lôn allanol cerbytffordd tua'r dwyrain y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r gerbytffordd tua'r gorllewin ar gau yn unol â'r erthygl honno.

14. Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Penmaen-bach, Gwynedd) (Cau Croesfannau'r Llain Ganol) 1994(**2**) wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r gwaharddiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

15. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar neu'n dileu cyfyngiadau cyflymder cerbydau ar y darn perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 4, 5 a 6 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 5, 6 a 7 yn weithredol.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

16. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 7 Medi 2021

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

(**1**) O.S. 1990/328.
(**2**) O.S. 1994/3088.

(2) No speed limit imposed by this Order applies to an exempted vehicle.

Suspensions

13. The provisions of The Trunk Road (A55) (Penmaenbach - Dwygyfylchi, Gwynedd) (One-Way Traffic) Order 1990(**1**) are suspended insofar as they relate to the offside lane of the westbound carriageway of the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order during such times as the eastbound carriageway is closed in accordance with article 3 and to the offside lane of the eastbound carriageway of the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order during such times as the westbound carriageway is closed in accordance with that article.

14. The provisions of The A55 Trunk Road (Penmaenbach Tunnel, Gwynedd) (Closure of Central Reservation Crossings) Order 1994(**2**) are suspended during such times as the prohibition specified in article 3 is in operation.

15. Any statutory provisions restricting or derestricting the speed of vehicles on the relevant lengths of the trunk road specified in Schedules 4, 5 and 6 to this Order are suspended during such times as the restrictions specified in articles 5, 6 and 7 are in operation.

Duration of this Order

16. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated 7 September 2021

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

(**1**) S.I. 1990/328.
(**2**) S.I. 1994/3088.

ATODLEN 1
Gwrthlif

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 320 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Penmaen-bach tua'r Gorllewin hyd at bwynt 130 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol y twnnel hwnnw.

ATODLEN 2
Cyfyngiad dim goddiweddyd

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain (y pentir) y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 320 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Penmaen-bach tua'r Gorllewin hyd at bwynt 130 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol y twnnel hwnnw.

ATODLEN 3
Terfynau'r bylchau yn y llain ganol

Y bwlch yn y llain ganol rhwng pwynt sy'n 130 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol Twnnel Penmaen-bach tua'r Gorllewin a phwynt sy'n 65 o fetrau i'r dwyrain o'r porth hwnnw.

Y bwlch yn y llain ganol rhwng pwynt sy'n 210 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Penmaen-bach tua'r Gorllewin a phwynt sy'n 320 o fetrau i'r gorllewin o'r porth hwnnw.

ATODLEN 4
Terfyn cyflymder 50 mya dros dro

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 20 metr i'r dwyrain o borth dwyreiniol Twnnel Conwy hyd at bwynt 20 metr i'r gorllewin o ganolbwynt trosbont Morfa Drive.

ATODLEN 5
Terfyn cyflymder 40 mya dros dro a gwahardd cerbydau

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 500 metr i'r dwyrain o ganolbwynt cylchfan Cyffordd 19 (Cyfnewidfa Glan Conwy) hyd at ganolbwynt trosbont Traphont y Red Gables, gan gynnwys y ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffyrdd 19, 18, 17, y gylchfan wrth Gyffordd 16 a'r bwlch yn y llain ganol fel y'i diffinnir ym mharagraff 2 o Atodlen 3.

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont Traphont y Red Gables hyd at y llain ganol wrth bwynt sy'n 191 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Pentir Penmaen-bach tua'r Dwyrain, gan gynnwys y bwlch

SCHEDULE 1
Contraflow

The length of the trunk road that extends from a point 320 metres west of the western portal of the Penmaenbach Westbound Tunnel to a point 130 metres east of the eastern portal of that tunnel.

SCHEDULE 2
No overtaking restriction

The length of the eastbound (headland) carriageway of the trunk road that extends from a point 320 metres west of the western portal of the Penmaenbach Westbound Tunnel to a point 130 metres east of the eastern portal of that tunnel.

SCHEDULE 3
Limits of the central reserve gaps

The gap in the central reservation situated between a point 130 metres east of the eastern portal of the Penmaenbach Westbound Tunnel and a point 65 metres east of that portal.

The gap in the central reservation situated between a point 210 metres west of the western portal of the Penmaenbach Westbound Tunnel and a point 320 metres west of that portal.

SCHEDULE 4
Temporary 50 mph speed limit

The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from a point 20 metres east of the eastern portal of the Conwy Tunnel to a point 20 metres west of the centre-point of Morfa Drive over-bridge.

SCHEDULE 5
Temporary 40 mph speed limit & prohibition of vehicles

The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from a point 500 metres east of the centre-point of the Junction 19 (Glan Conwy Interchange) roundabout to the centre-point of Red Gables Viaduct over-bridge, including the westbound entry and exit slip roads at Junctions 19, 18, 17, the roundabout at Junction 16 and the central reserve gap as defined in paragraph 2 of Schedule 3.

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from the centre-point of Red Gables Viaduct over-bridge to the central reserve at a point 191 metres west of the western portal of Penmaenbach Eastbound Headland Tunnel, including

yn y llain ganol fel y'i diffinnir ym mharagraff 2 o Atodlen 3.

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o'r llain ganol wrth bwynt sy'n 787 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol Twnnel Pentir Penmaen-bach tua'r Dwyrain hyd at bwynt sy'n 500 metr i'r dwyrain o ganolbwynt Cylchfan Cyffordd 19 (Cyfnewidfa Glan Conwy), gan gynnwys y ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffyrdd 17, 18 a 19.

ATODLEN 6
Estyn cyfyngiad cyflymder 30mya y Pentir

Y darn o'r bwlch yn y llain ganol rhwng pwynt sy'n 130 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol Twnnel Penmaen-bach tua'r Gorllewin a phwynt sy'n 65 o fetrau i'r dwyrain o'r porth hwnnw.

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 840 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt trosbont Cyffordd 17 (Morfa Conwy) hyd at bwynt 362 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Penmaen-bach tua'r Gorllewin.

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 940 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16 (Cylchfan Puffin) hyd at bwynt 191 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Pentir Penmaen-bach tua'r Dwyrain.

Y bwlch yn y llain ganol rhwng pwynt sy'n 210 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Penmaen-bach tua'r Gorllewin a phwynt sy'n 320 o fetrau i'r gorllewin o'r porth hwnnw.

ATODLEN 7
Cyfyngiad lled cerbydau

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 30 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16 (Cylchfan Puffin) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 18 (Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno).

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 18 (Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno) hyd at bwynt 30 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16 (Cylchfan Puffin), gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 18.

the central reserve gap as defined in paragraph 2 of Schedule 3.

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from the central reservation at a point 787 metres east of the eastern portal of the Penmaenbach Eastbound Headland Tunnel to a point 500 metres east of the centre-point of the Junction 19 (Glan Conwy Interchange) roundabout, including the eastbound entry and exit slip roads at Junctions 17, 18 and 19.

SCHEDULE 6
Extension of the Headland 30mph speed restriction

The length of the central reserve gap between a point 130 metres east of the eastern portal of the Penmaenbach Westbound Tunnel and a point 65 metres east of that portal.

The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from a point 840 metres west of the centre-point of the Junction 17 (Conwy Morfa) over-bridge to a point 362 metres west of the western portal of the Penmaenbach Westbound Tunnel.

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from a point 940 metres east of the centre-point of Junction 16 (Puffin Roundabout) to a point 191 metres west of the western portal of Penmaenbach Eastbound Headland Tunnel.

The gap in the central reservation between a point 210 metres west of the western portal of the Penmaenbach Westbound Tunnel and a point 320 metres west of that portal.

SCHEDULE 7
Vehicle width restriction

The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the westbound exit slip road at Junction 18 (Llandudno Junction Interchange) to a point 30 metres east of the centre-point of Junction 16 (Puffin Roundabout), including the westbound entry slip road at Junction 18.

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from a point 30 metres east of the centre-point of Junction 16 (Puffin Roundabout) to the nosing of the eastbound entry slip road at Junction 18 (Llandudno Junction Interchange).

ATODLEN 8
Gwahardd dros dro feicwyr a cherddwyr

Y darn o'r llwybr beiciau/llwybr troed sy'n ymestyn o bwynt 787 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol Twnnel Pentir Penmaen-bach tua'r Dwyrain, gan gynnwys y darn o'r llwybr beiciau/llwybr troed sy'n gyfagos i'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 17, hyd at ei bentan â'r A457 ar ddiwedd y ffordd ymadael honno.

SCHEDULE 8
Temporary prohibition of cyclists and pedestrians

The length of the cycleway/footpath that extends from a point 787 metres east of the eastern portal of the Penmaenbach Eastbound Headland Tunnel, including the length of cycleway/footpath adjacent to the Junction 17 eastbound exit slip road, to its abutment with the A457 at the end of that slip road.